Gweithgaredd Blaenoriaethu Biliau

Pecyn cymorth p26-29

Biliau sy'n flaenoriaeth

Biliau sy'n flaenoriaeth	Canlyniadau posibl peidio â thalu
Ad-daliadau morgais a benthyciadau y defnyddiwyd eich cartref i'w diogelu	Adfeddiannu eich cartref
Ôl-ddyledion rhent	Eich troi allan o'r cartref
Y dreth gyngor	Defnyddio beili i gasglu'r ddyled, didynnu o'ch cyflog neu fudd-daliadau.
Nwy/trydan	Datgysylltu
Dirwyon yn y llys ynadon	Didynnu o'ch cyflog neu fudd-daliadau
Cynhaliaeth plant	Didynnu o'ch cyflog, eich carcharu
Cytundebau hurbwrcasu, os yw'r hyn yr ydych yn ei brynu gyda hwy'n hanfodol	Adfeddiannu nwyddau hurbwrcas
Trwydded Teledu	Dirwy yn y Llys Ynadon
Treth Incwm, Yswiriant Gwladol a TAW	Didynnu o'ch cyfrif banc, defnyddio beili
Taliadau wedi'u colli y mae arnoch i'r Adran Gwaith a Phensiynau neu Cyllid a Thollau EM	Didyniadau o'ch budd-daliadau

Biliau nad ydynt yn flaenoriaeth

Gall dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth gynnwys:

- Dyledion cardiau credyd
- Dyledion cardiau siopau a chatalogau
- Benthyciadau banc a diwrnod cyflog heb eu diogelu (benthyciadau nad yw eich cartref wedi cael ei ddefnyddio i'w diogelu)
- Benthyciadau gan deulu a ffrindiau
- Gorddrafftiau
- Biliau dŵr a charthffosiaeth

Gweithgaredd

Defnyddiwch y tabl i restru eich biliau/taliadau allan a dewiswch y rhai sy'n flaenoriaeth.

Biliau a thaliadau allan	Yn flaenoriaeth
E.e. y dreth gyngor	*Ydy*
E.e. siopa am fwyd	*Ydy*
E.e. cerdyn credyd	*Nac ydy*